# Strategaeth Hyrwydd'r Gymraeg 2017-2022

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Cymraeg

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Trosolwg**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn mynd ati i foderneiddio'r fframwaith cyfreithiol ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg wrth gyflawni gwasanaethau cyhoeddus. Ym Medi 2015, rhoddwyd Nodyn Cydymffurfio i Gyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent[1], oedd yn nodi'r gofyn i weithredu 171 o'r 176 o Safonau'r Gymraeg.

**Nod Safonau'r Gymraeg yw:**

- Gwella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu cael gan sefydliadau penodol yn y Gymraeg;
- Cynyddu'r defnydd y mae pobl yn ei wneud o wasanaethau Cymraeg;
- Ei gwneud yn glir i sefydliadau beth sydd angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg; a
- Sicrhau bod cysondeb priodol o ran y dyletswyddau a roddir ar gyrff yn yr un sectorau.

Mae'r Strategaeth Hyrwyddo 5 mlynedd hon yn cydymffurfio â Safon 145 sy'n nodi:

> Rhaid i chi gynhyrchu, a chyhoeddi ar eich gwefan, Strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut yr ydych yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg ac i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy eang yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymhlith pethau eraill)
>
> (a) targed (o ran y ganran o siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal y nifer o siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, a
>
> (b) datganiad yn nodi sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid i chi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ar eich gwefan cyn pen 5 mlynedd o gyhoeddi strategaeth (neu o gyhoeddi strategaeth ddiwygiedig).

Os hoffech chi rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Helena Hunt
Arweinydd Tîm Polisi
Tîm Partneriaethau ac Ymgysylltu Polisi
Gwasanaethau Corfforaethol a Strategaeth, Llawr 4A, Y Ganolfan Ddinesig, Glynebwy, NP23 6XB
E-bost: cymraeg@blaenau-gwent.gov.uk Ffôn: 01495 355108

[1] http://www.blaenau-gwent.gov.uk/fileadmin/documents/Council/Equalities/Compliance_Notice_-_November_2016.pdf

## Cynnwys


Cyflwyniad 4

Cyd-destun Polisi 5

Crynodeb: Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2017-2022 7

Trosolwg o Flaenau Gwent 8

Amcanion Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2017-2022 9

- Teuluoedd a Chymunedau 9
- Plant a Phobl Ifanc 10
- Cymraeg yn y Gweithle 11

Cynllun Gweithredu 12

- Teuluoedd a Chymunedau 12
- Plant a Phobl Ifanc 13
- Cymraeg yn y Gweithle 14

**Cyflwyniad**

Gweledigaeth y Cyngor yw ein bod yn dymuno i Flaenau Gwent fod yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef. Mae’r Gymraeg a’r Saesneg yn elfennau allweddol o’n hanes, diwylliant a’n gwead cymdeithasol.

Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ei gweledigaeth ar gyfer gweld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ar draws Cymru. Mae hon yn her sylweddol i Flaenau Gwent, sydd yn gyson wedi bod â’r defnydd lleiaf o’r Gymraeg yng Nghymru, ynghyd ag Awdurdodau eraill yn Ne Ddwyrain Cymru.

Er hynny, mae Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent yn ymroddedig i wneud cyfraniad gwerthfawr at y targed uchelgeisiol hwn, lle gallwn, gyda’n gilydd, gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg a hybu cyfleoedd dwyieithog.

Rydym yn cydnabod na all y Cyngor gyflawni’r cynnydd angenrheidiol yn y defnydd o’r Gymraeg ar ei ben ei hun, a bydd cyflawni ei amcanion Hyrwyddo’r Gymraeg yn effeithiol yn dibynnu ar ymdrech ar y cyd a diwnïad gan ein partneriaid ac ennyn diddordeb a chyfraniad preswylwyr Blaenau Gwent.

Trwy weithio mewn partneriaeth byddwn yn gwneud ein rhan i greu’r strategaeth a all greu’r amodau cywir i ddwyieithrwydd ffynnu a blodeuo, mewn teuluoedd a chymunedau, mewn plant a phobl ifanc, ac yn ein gweithle.

Mae ymrwymiad cyfreithiol ar y Cyngor i gynhyrchu’r strategaeth hon dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Safon 145. Mae’r Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg bum mlynedd hon yn nodi sut yr ydym yn bwriadu hyrwyddo’r Gymraeg a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg yn fwy eang ym Mwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent.

Mae’r Strategaeth yn gobeithio adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi ei gyflawni trwy ein Cynlluniau Iaith Gymraeg blaenorol, a thrwy gryfhau ein rhwydweithiau o bartneriaethau sydd wedi hen sefydlu.

Bydd yr amcanion Hyrwyddo’r Gymraeg y byddwn yn gweithio arnynt yn y Strategaeth hon hefyd yn hanfodol, i ddangos sut y mae’r Cyngor hwn yn ymateb i’r ddeddfwriaeth newydd ‘Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015’. Bydd hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer nod llesiant cenedlaethol Cymru o ‘Gymru o ddiwylliant bywiog a Chymraeg sy’n ffynnu’.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni, byddwn yn monitro ac yn craffu ar y strategaeth yn barhaus fel rhan allweddol o fusnes y Cyngor, trwy integreiddio ein gweithredoedd i’n strwythurau adrodd a pherfformiad corfforaethol.

Yn unol â Safon y Gymraeg 146, bum mlynedd ar ôl cyhoeddi’r strategaeth hon bydd yn ofynnol i ni asesu’r graddau yr ydym wedi dilyn y strategaeth ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ynddi.

## Cyd-destun Polisi

Mae'r adran ganlynol yn nodi'r fframweithiau cyfreithiol a pholisi sy'n rhoi siâp i'r Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg hon:

## Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Yn Adran 78(1) Deddf Llywodraeth Cymru 2006 mae gofyn i Weinidogion Cymru fabwysiadu strategaeth sy'n nodi sut y maent yn bwriadu hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae Adran 78(4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r strategaeth ac yn eu galluogi i fabwysiadu strategaeth newydd o bryd i'w gilydd.

Ar 31 Hydref 2016 caeodd Llywodraeth Cymru ei hymgynghoriad ar ei chynigion ar gyfer y strategaeth newydd i'r Gymraeg: 'Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050', a fydd yn cymryd lle'r Strategaeth bresennol: *Iaith fyw: iaith byw* (2012−2017) yn gynnar y flwyddyn nesaf.

## Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011[2]

Pasiwyd Mesur y Gymraeg (Cymru) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a rhoddwyd y cydsyniad brenhinol iddo ar 9 Chwefror 2011. Cyflwynodd y mesur ffyrdd newydd o weithio ond yn bennaf:

- *rhoi i'r Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru* ac mae'n cael effaith gyfreithiol, sy'n golygu na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- *sefydlu rôl Comisiynydd yr Iaith Gymraeg;*
- *creu gweithdrefn i gyflwyno dyletswyddau ar ffurf y safonau iaith,* sy'n esbonio sut y disgwylir i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg;
- *gwneud darpariaeth hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg;*
- *darparu ar gyfer ymchwilio i amhariad ar y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.*

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 - Offeryn Statudol Cymru 2015 Rhif 996 (W. 68)[3]

O 31 Mawrth 2016, roedd yn rhaid i Gyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent gydymffurfio â'r rheoliadau uchod, oedd yn nodi'r Safonau newydd i'r Gymraeg. O'r 176 o Safonau, mae rhaid i Flaenau Gwent gydymffurfio ag 171 o'r Safonau fel y maent yn cael eu nodi yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae gennym her wedi ei chyflwyno i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a all arwain at newid yn yr Hysbysiad Cydymffurfio terfynol.

---

[2] http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/enacted/welsh

[3] http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20161019%20Hysbysiad%20Cydymffurfio44%20CBS%20Blaenau%20Gwent.pdf

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)[4] 2015**

Nod y Ddeddf hon yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd y Ddeddf yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf ystyried y tymor hir, gweithio yn well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio osgoi problemau a defnyddio dull mwy diwnïad. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno 7 o nodau llesiant, sy'n cynnwys 'Cymru o ddiwylliant bywiog a Chymraeg sy'n ffynnu' gyda'r disgwyliad y byddwn yn anelu at 'gymdeithas sy'n hybu a gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg...' Mae hyn yn golygu bod dyletswydd eisoes ar nifer o gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i gyflawni'r nod hwnnw yn y tymor hir, ac un o'r camau yw creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Iaith fyw: iaith byw: Strategaeth y Gymraeg[5] 2012 – 2017**

Dyma strategaeth Llywodraeth Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd o ddydd i ddydd. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. I gyflawni hynny, nod y strategaeth yw gweld cynnydd yn y nifer o bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith.

**Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol[6]**

Nod y fframwaith strategol olynol hwn i fframwaith strategol 'Mwy na geiriau...' a gyhoeddwyd yn 2012 yw cynnal momentwm ond hefyd gefnogi mwy o gydnabyddiaeth ymhlith darparwyr gwasanaeth mai nid dim ond mater o ddewis yw defnyddio'r Gymraeg ond ei fod yn fater o angen hefyd. Mae'n arbennig o bwysig i nifer o bobl fregus a'u teuluoedd sydd angen mynediad at wasanaethau yn eu hiaith gyntaf, fel pobl hŷn sy'n dioddef o dementia neu strôc a all golli eu hail iaith neu blant ifanc iawn sydd ddim ond yn siarad Cymraeg.

Mae'r 'cynnig gweithredol' yn parhau yn elfen graidd lle mae'r Cyngor a'i bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol yn cydnabod ei bod yn bwysig i staff gynnig gwasanaethau Cymraeg i ddefnyddwyr, yn hytrach na disgwyl i ddefnyddwyr y gwasanaeth orfod gofyn amdanynt.

**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Drafft Blaenau Gwent 2017-2020**

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) (2013) yn gosod gofyn statudol ar awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae'r Cynllun Strategol yn canolbwyntio ar y targedau yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a disgwylir i awdurdodau lleol roi adroddiad yn flynyddol ar berfformiad mewn cymhariaeth â'r targedau hyn.

[4] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/pdfs/anaw_20150002_en.pdf

[5] http://gov.wales/docs/dcells/publications/122902wls201217cy.pdf

[6] http://gov.wales/docs/dhss/publications/160317morethanjustwordscy.pdf

## Crynodeb: Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2017 - 2022

### Gweledigaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i 'Filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'.

### Targed

Mae Safon y Gymraeg 145 yn nodi'r gofyn i osod "targed (o ran y ganran o siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal y nifer o siaradwyr Cymraeg yn eich ardal" erbyn 2022 a "datganiad yn nodi sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw".

Er mwyn cyrraedd targed o gynnydd o 44% yn y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, byddai'n rhaid i ni gael 2,324 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol mewn cymhariaeth â gwaelodlin Cyfrifiad 2011 Blaenau Gwent, sef 5,284.

Felly mae hyn yn cynrychioli cynnydd blynyddol ar gyfartaledd o 70 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol h.y. 3% o'r ffigwr targed o 2,324 ychwanegol ym Mlaenau Gwent am y 33 mlynedd nesaf.

Er mwyn cyflawni'r targed hwn, bydd angen i Gyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent weithio mewn partneriaeth ag ystod eang o bartneriaid i hyrwyddo'r Gymraeg mewn lleoliadau addysg a chyfleoedd mwy hygyrch mewn cymunedau; a hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle.

### Amcanion

Mae Blaenau Gwent wedi dynodi'r tri amcan canlynol o ran hyrwyddo'r Gymraeg:

1. Hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd ac yn y gymuned.
2. Cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg a gweithgareddau anffurfiol i blant a phob ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith.
3. Cynyddu'r cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

### Deilliannau

- Mwy o bobl yn ymwneud â'r Gymraeg
- Mwy o bobl yn dod yn rhugl yn y Gymraeg
- Mwy o gyflogeion y Cyngor yn gallu defnyddio'r Gymraeg

### Trefniadau Monitro

- Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent
- Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg

**Trosolwg o Flaenau Gwent**

**Daearyddiaeth**

Mae Blaenau Gwent yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae tua 20 milltir o Gasnewydd, a 30 milltir o Gaerdydd, ac yn union i'r de o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Cymharol fach yw'r ardal yn ddaearyddol, gan fesur 15 milltir o hyd ar y mwyaf ac 8 milltir o led, a dyma'r awdurdod lleol lleiaf yng Nghymru o ran maint daearyddol, ar tua 10,900 hectar. Diffinnir yr ardal yn ffisegol gan fryniau serth sy'n rhannu'r tri phrif gwm. Mae'r cymoedd yma yn gartref i drefi a phentrefi sy'n ymddangos fe petaent yn llifo i'w gilydd. Fodd bynnag, mae pob cymuned yn falch o'i chymeriad a'i thraddodiadau ei hun. Ystyrir mai'r prif drefi yw Abertyleri, Brynmawr, Glynebwy, Nantyglo a Blaenau a Thredegar.

**Poblogaeth**

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd Blaenau Gwent yn gartref i 69,814 o bobl, gan ei wneud yn un o'r awdurdodau lleol lleiaf yng Nghymru o ran poblogaeth. Er hynny, oherwydd ei faint daearyddol cymharol fychan, mae'n bumed o ran dwyster poblogaeth tu ôl i Gaerdydd, Casnewydd, Torfaen a Chaerffili.

Dynododd Cyfrifiad 2011 bod 5,284 o siaradwyr Cymraeg yn byw ym Mlaenau Gwent, oedd yn cyfateb i 7.8% o'r boblogaeth, roedd hyn yn gynnydd sylweddol mewn cymhariaeth â Chyfrifiad 1991, sy'n dangos dim ond 2.2% (n1,539) o siaradwyr Cymraeg.

Awgryma rhagolygon poblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ar sail canol 2011) y bydd poblogaeth Blaenau Gwent yn gostwng o 1.7% dros 10 mlynedd a 5.6% dros 20 mlynedd, er bod y rhagolygon yn mynd yn llai dibynadwy dros gyfnodau hwy.

Mae'r gostyngiad a ragwelir ym Mlaenau Gwent yn cyferbynnu â'r cynnydd a ragwelir yn gyffredinol ar draws rhanbarthau eraill yng Nghymru. Rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru gyfan yn cynyddu o 4.1% dros y 10 mlynedd nesaf a 6.7% dros 20 mlynedd.

Er bod disgwyliadau hyd oes yn cynyddu ym Mlaenau Gwent, mae'r cyfraddau genedigaethau is a'r mudo allan net (er ei fod yn gymharol fychan) yn cyfrannu at y duedd ar i lawr dros yr 20 mlynedd nesaf.

Oherwydd y gostyngiad a ragwelir mewn poblogaeth â cyfraddau genedigaethau is a'r mudo allan net roedd gosod canran fel targed o ran cynnydd yn y siaradwyr Cymraeg ym Mlaenau Gwent yn her wirioneddol.

## Amcanion y Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2017-22

| | |
|---|---|
| **Teuluoedd a Chymunedau** | |
| **Amcan 1:** | **Byddwn yn hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd ac yn y gymuned** |
| Deilliannau: Yr hyn yr ydym am ei gyflawni:<br>• Mwy o bobl yn ymwneud â'r Gymraeg<br>• Mwy o bobl yn dod yn rhugl yn y Gymraeg<br>• Mwy o gyflogeion y Cyngor yn gallu defnyddio'r Gymraeg | |
| **Cam Gweithredu 1.1** | Hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg / dwyieithog anffurfiol wedi eu darparu ym Mlaenau Gwent h.y. gwefan, cyfryngau cymdeithasol. Posteri ayb. |
| **Cam Gweithredu 1.2** | Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer addysgu mwy ffurfiol h.y. cwrs Mynediad ac ati |
| **Cam Gweithredu 1.3** | Hyrwyddo cyfleoedd hamdden trwy gyfrwng y Gymraeg |
| **Cam Gweithredu 1.4** | Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog yn unol â e.e. cyfarwyddyd cenedlaethol fel 'Mwy na geiriau..' |
| **Cam Gweithredu 1.5** | Hyrwyddo a gwerthuso mynediad at wasanaethau awdurdodau lleol trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg |
| **Cam Gweithredu 1.6** | Cynyddu'r nifer o blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n datgan eu dewis iaith (Cymraeg/Saesneg/dwyieithog) o ran y modd y maent yn cysylltu â gwasanaethau'r cyngor lleol |
| **Partneriaid:** Byddwn yn gweithio gyda'r partneriaid canlynol i gyflawni'r amcan hwn:<br><br>Plant, pobl ifanc ac oedolion ym Mlaenau Gwent, Dysgu Cymraeg Gwent, Coleg Gwent, Menter Iaith, Ymddiriedolaedh Aneurin Leisure Trust, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Mudiad Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Fforwm Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru, Gwasanaeth Gwybodaeth Teuluol Cyngor Blaenau Gwent, RhAG ( Rhieni dros Addysg Gymraeg_, Fforwm Ieuenctid y Gymraeg, Yr Urdd yn Ysgol Gyfun Gwynllyw, Grŵp Deddf, Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol, Pob Ysgol, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg | |

| | |
|---|---|
| **Plant a Phobl Ifanc** | |
| **Amcan 2:** | **Cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg a gweithgareddau anffurfiol i blant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith.** |
| Deilliannau: Yr hyn yr ydym am ei gyflawni:<br><br>• Mwy o bobl yn ymwneud â'r Gymraeg<br>• Mwy o bobl yn dod yn rhugl yn y Gymraeg<br>• Mwy o weithwyr y Cyngor yn gallu defnyddio'r Gymraeg | |
| **Cam Gweithredu 2.1** | Cynyddu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i ysgogi galw gan y rhieni a'u annog nhw i wisgo bathodynnau 'Dysgu' |
| **Cam Gweithredu 2.2** | Cynyddu cyfraddau trosglwyddo o'r ddarpariaeth feithrin Gymraeg i Ysgol Gymraeg Bro Helyg |
| **Cam Gweithredu 2.3** | Codi proffil a lefelau cymryd rhan mewn addysg cyfrwng Cymraeg |
| **Cam Gweithredu 2.4** | Gwella deilliannau i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg |
| **Cam Gweithredu 2.5** | Gweithio yn rhanbarthol gydag Awdurdodau Lleol De Ddwyrain Cymru a hyrwyddo cyfleoedd cyfrwng Cymraeg mewn sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch |
| **Cam Gweithredu 2.6** | Hyrwyddo gweithgareddau tu hwnt i'r cwricwlwm yn y Gymraeg/yn ddwyieithog a chyfleoedd cymdeithasol i blant a phobl ifanc o ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg |
| **Cam Gweithredu 2.7** | Hyrwyddo cyfleoedd i rieni/gofalwyr/tad-cuod a mam-guod i wella eu Cymraeg / sgiliau dwyieithog i gefnogi eu plant trwy addysg Gymraeg / ddwyieithog |
| **Partneriaid:** Byddwn yn gweithio gyda'r partneriaid canlynol i gyflawni'r amcan hwn:<br><br>Plant, pobl ifanc ac oedolion ym Mlaenau Gwent, Coleg Gwent, Dysgu Cymraeg Gwent, Menter Iaith, Ymddiriedolaeth Aneurin, Mudiad Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Fforwm Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru, Gwasanaeth Gwybodaeth Teuluol Cyngor Blaenau Gwent, RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg), Fforwm Ieuenctid y Gymraeg, Grŵp Deddf, Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol, Pob Ysgol, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg | |

| **Cymraeg yn y Gweithle** | |
|---|---|
| **Amcan 3: Cynyddu'r cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle** | |
| Deilliannau: Yr hyn yr ydym am ei gyflawni:<br><br>• Mwy o bobl yn ymwneud â'r Gymraeg<br>• Mwy o bobl yn dod yn rhugl yn y Gymraeg<br>• Mwy o gyflogeion y Cyngor yn gallu defnyddio'r Gymraeg | |
| **Cam Gweithredu 3.1** | Cynyddu'r nifer o gyflogeion sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg a'u annog nhw o wisgo bathodynnau "Dysgu" ac i helpu dysgwyr Cymraeg yn gymdeithasol ac gwella eu hyder. |
| **Cam Gweithredu 3.2** | Annog cyflogeion i wella eu Cymraeg a'u annog nhw i wisgo bathodynnau "Dysgu" i hyrwyddo gwasanaethau dwyieithiog. |
| **Cam Gweithredu 3.3** | Hyrwyddo cyrsiau hyfforddi Cymraeg ac annog rhagor o gyflogeion i'w mynychu |
| **Cam Gweithredu 3.4** | Darparu ystod o ganllawiau a deunyddiau cefnogi i gynyddu'r ymwneud â'r Gymraeg a'r hyder wrth ei defnyddio yn y gweithle |
| **Cam Gweithredu 3.5** | Cefnogi pob adran i weithredu safonau'r Gymraeg yn effeithiol yn ôl Hysbysiad Cydymffurfio'r Cyngor |
| **Cam Gweithredu 3.6** | Monitro'n effeithiol y swyddi yn y Cyngor a hysbysebir sy'n mynd trwy'r broses asesu'r Gymraeg yn effeithiol |
| **Cam Gweithredu 3.7** | Annog rhagor o gyfleoedd i gydweithwyr ymwneud â'i gilydd trwy gyfrwng y Gymraeg |
| **Partneriaid:** Byddwn yn gweithio gyda'r partneriaid canlynol i gyflawni'r amcan hwn:<br><br>Cyflogeion Gweithwyr Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent, Menter Iaith,Dysgu Cymraeg Gwent, Coleg Gwent, Ymddiriedolaeth Aneurin Leisure, Grŵp Deddf, Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol, yr holl staff mewn Ysgolion, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg | |

| Amcan 1: Byddwn yn hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd ac yn y gymuned | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod y Cam Gweithredu** | **Cam Gweithredu** | **Partneriaid Arweiniol** |
| **1.1** | Hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg / dwyieithog anffurfiol wedi eu darparu ym Mlaenau Gwent h.y. gwefan, cyfryngau cymdeithasol, posteri ayb. | Ysgolion cyfrwng Saesneg, Coleg Gwent,Dysgu Cymraeg Gwent, Menter Iaith, Ymddiriedolaeth Aneurin, Mudiad Meithrin, Ysgol Gyfun Gwynllyw, Ysgol Gymraeg Bro Helyg, Urdd Gobaith Cynru ayb. |
| **1.2** | Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer addysgu mwy ffurfiol h.y. cwrs Mynediad ac ati | Ysgolion, Coleg Gwent, Parth Dysgu Blaenau Gwent, Mudiad Meithrin |
| **1.3** | Hyrwyddo cyfleoedd hamdden trwy gyfrwng y Gymraeg | Ymddiriedolaeth Aneurin Leisure |
| **1.4** | Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog yn unol ag e.e. cyfarwyddyd cenedlaethol fel 'Mwy na geiriau.' | Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent (h.y. Gwasanaethau Cymdeithasol ac ati), Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| **1.5** | Hyrwyddo a gwerthuso mynediad (h.y. gwefan, cyfryngau cymdeithasol, C2BG) at wasanaethau awdurdodau lleol trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg | Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent |
| **1.6** | Cynyddu'r nifer o blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n datgan eu dewis iaith (Cymraeg/Saesneg/dwyieithog) o ran y modd y maent yn cysylltu â gwasanaethau'r cyngor lleol | Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent, Pob ysgol |

| Amcan 2: | Cynyddu’r ddarpariaeth addysg Gymraeg a gweithgareddau anffurfiol i blant a phob ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith. | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod y Cam Gweithredu** | **Cam Gweithredu** | **Partneriaid Arweiniol** |
| **2.1** | Cynyddu’r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i ysgogi galw gan y rhieni | Yr un fath â’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg |
| **2.2** | Cynyddu cyfraddau trosglwyddo o’r ddarpariaeth feithrin Gymraeg i Ysgol Gymraeg Bro Helyg | Yr un fath â’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg |
| **2.3** | Codi proffil a lefelau cymryd rhan mewn addysg cyfrwng Cymraeg | Yr un fath â’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg |
| **2.4** | Gwella deilliannau i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg | Yr un fath â’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg |
| **2.5** | Gweithio yn rhanbarthol gydag Awdurdodau Lleol De Ddwyrain Cymru a hyrwyddo cyfleoedd cyfrwng Cymraeg mewn sefydliadau addysg pellach ac addysg uwch | Yr un fath â’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg |
| **2.6** | Hyrwyddo gweithgareddau tu hwnt i’r cwricwlwm yn y Gymraeg/yn ddwyieithog a chyfleoedd cymdeithasol i blant a phobl ifanc o ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg | Yr un fath â’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg |
| **2.7** | Hyrwyddo cyfleoedd i rieni/gofalwyr/tad-cuod a mam-guod neiniau i wella eu Cymraeg / sgiliau dwyieithog i gefnogi eu plant trwy addysg Gymraeg / ddwyieithog | Yr un fath â’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg |

| **Amcan 3: Cynyddu'r cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod y Cam Gweithredu** | **Cam Gweithredu** | **Partneriaid Arweiniol** |
| **3.1** | Cynyddu'r nifer o gyflogeion sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg a'u annog nhw o wisgo bathodynnau "Dysgu" ac i helpu dysgwyr Cymraeg yn gymdeithasol ac gwella eu hyder. | Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent |
| **3.2** | Annog cyflogeion i wella eu Cymraeg a'u annog nhw i wisgo bathodynnau "Dysgu" i hyrwyddo gwasanaethau dwyieithiog. | Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent, Ysgolion cyfrwng Saesneg, Mudiad Meithrin, Ysgol Gyfun Gwynllyw, Ysgol Gymraeg Bro Helyg |
| **3.3** | Hyrwyddo cyrsiau hyfforddi Cymraeg ac annog rhagor o weithwyr i'w mynychu | Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent, Ysgolion cyfrwng Saesneg, Mudiad Meithrin, Ysgol Gyfun Gwynllyw, Ysgol Gymraeg Bro Helyg |
| **3.4** | Darparu ystod o ganllawiau a deunyddiau cefnogi i gynyddu'r ymwneud â'r Gymraeg a'r hyder wrth ei defnyddio yn y gweithle | Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent |
| **3.5** | Cefnogi pob adran i weithredu safonau'r Gymraeg yn effeithiol yn ôl Hysbysiad Cydymffurfio'r Cyngor | Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent |
| **3.6** | Monitro'r swyddi yn y Cyngor a hysbysebir sy'n mynd trwy'r broses asesu'r Gymraeg yn effeithiol | Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent |
| **3.7** | Annog rhagor o gyfleoedd i gydweithwyr ymwneud â'i gilydd trwy gyfrwng y Gymraeg | Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent |